**Cyfarfod ar y cyd o Arweinwyr Eglwysi Cymru ac Ymddiriedolwyr Cytûn, 19 Hydref 2023**

Yn unol ag un elfen allweddol o ddatganiad cenhadaeth Cytûn, "helpu'r eglwysi i gyrraedd meddwl cyffredin a gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd" ac yn dilyn patrwm rhai eraill o offerynnau ecwmenaidd cenedlaethol Prydain ac Iwerddon, gwahoddodd Ymddiriedolwyr Cytûn arweinwyr Eglwysi Cymru i ddod ynghyd i gael sgwrs am gyfeiriad Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru at y dyfodol.

Nid oedd cyfarfod o'r fath wedi digwydd ers pedair blynedd ar ddeg ac yn anochel bu llawer o newidiadau mewn personél enwadol yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd yn galonogol iawn bod llawer o eglwysi Categori A Cytûn wedi eu cynrychioli yn y cyfarfod yn ogystal â Chadeiryddion cyrff traws enwadol eciwmenaidd eraill sef Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru, y Cyngor Ysgolion Sul a Chomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol. Roedd yr aelodau categori A canlynol wedi cyflwyno ymddiheuriadau: Byddin yr Iachawdwriaeth, Cynulliadau Duw, Eglwys Pentecost y DU, yr Eglwys Uniongred Indiaidd ac Eglwys Dduw. Dylid cydnabod bod hyn yn golygu nad oedd unrhyw lais Pentecostaidd nac o gynulleidfaoedd lleiafrifoedd ethnig yn bresennol, er mawr ofid i staff Cytûn.

Darlith a draddodwyd gan Brif Weithredwr Cytûn, Siôn Brynach, ym mis Awst 2023 o'r enw "Dringo'r ail fynydd : dyfodol i eciwmeniaeth yng Nghymru? oedd y catalydd ar gyfer y drafodaeth. Yn y ddarlith honno y cwestiynau cyfathrebu allweddol oedd y rhai a amlygwyd – pwy, beth, pam, pryd, ble a sut - gyda'r ddarlith yn tynnu sylw yn benodol at bwysigrwydd canolog y tri chyntaf o'r cwestiynau rheini - pwy, beth a pham.

Dechreuodd y cyfarfod gydag Astudiaeth Feiblaidd, dan arweiniad yr Parch Ddr Susan Durber, Llywydd Cyngor Eglwysi'r Byd o Ewrop, gyda'r testun dan sylw yn dod o'r Epistol at y Philipiaid, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr ail bennod gyda'i siarsiau i'r ffyddloniaid fod o un meddwl - "Gadewch i bob un ohonoch chi beidio ag edrych at ei ddiddordebau ei hunan, ond er lles pobl eraill". Cyfeiriodd at dri o brif themâu llythyr Paul: llawenydd, gostyngeiddrwydd ac undod. Llawenydd pan oeddent yn teimlo iselder, gostyngeiddrwydd pan oeddent yn teimlo cywilydd, undod pan oedd rhaniadau.

Cyfeiriodd at waith David Jasper (Eglwys Esgobol yr Alban – Athro Llenyddiaeth a Diwinyddiaeth wedi ymddeol), a fu yn feirniad eofn o'r Eglwys ond ar yr un pryd yn offeiriad ffyddlon. Fe all, yn ddigon rhwydd, ddisgrifio 'y gorllewin' fel Cymdeithas ôl-Gristnogol mewn un ystyr, ond ar yr un pryd gredu yn y posibilrwydd o 'ail-ddarganfod Cristnogaeth mewn ffordd sydd hyd yma prin wedi ei fynegi'. Mae'n ein hannog i roi heibio ein hymlyniad hiraethus i 'adfeilion eglwysig y gorffennol' ac i gofleidio'n hytrach rhywbeth tebycach i 'ddynesiad agored i'r llall sydd â'i wreiddiau mewn kenosis' – gan adleisio'r hunan-ymwacau i'r byd gan Dduw (Phil 2!). Dywed, o fewn Ewrop wedi ei seciwlareiddio bod Cristnogaeth wedi bod yn ymladd brwydr y mae'n ei cholli dros gael ei gydnabod fel sefydliad o bwys ac am le yn y sgwâr cyhoeddus – ond ei fod yn *falch bod Cristnogaeth yn colli'r frwydr honno* am yr un rheswm â'r un a fynegir gan Paul yn ei lythyr at y Philipiaid – na ddylai dilynwyr Iesu fod yn ceisio cryfder gwledydd cred y gorffennol na chwaith grym cenedl-wladwriaethau'r cyfnod modern. Ein nod yw gwendid a hunan-aberth ... meddai fe. Dyna'r hyn ydym ni.

Tynnodd hefyd gyffelybiaethau rhwng siars Paul yn yr epistol a'r cyfeiriad at Iesu yn golchi traed ei ddisgyblion ym mhennod tair ar ddeg o'r Efengyl yn ôl Ioan, yn ogystal â thestun Datganiad Undod unfed Cynulliad ar ddeg Cyngor Eglwysi'r Byd. Mae hwnnw'n pwysleisio mai "cariad Crist yw ffynhonnell y mudiad eciwmenaidd" sy'n arwain yn ei dro at y "chwiliad hanfodol am gytundeb mewn ffydd, y cydweithio mewn gwasanaeth i'r byd, cerdded y ffordd o ddisgyblaeth gyda'n gilydd; mae'r rhain oll yn cael eu cyffroi gan gariad Crist, sy'n ysgogi ein calonnau trwy'r Ysbryd Glân." Daw'r datganiad hwnnw i ben drwy annog "y chwilio am undod sy'n cael ei ysbrydoli gan gariad a'i wreiddio mewn perthnasoedd dwfn a chydfuddiannol [sy'n dod yn y diwedd yn] eciwmeniaeth y galon".

Cyn y brif drafodaeth, rhoddodd Swyddog Polisi Cytûn, y Parchedig Gethin Rhys, gyflwyniad yn amlinellu rhai o'r mewnwelediadau allweddol sy'n deillio o ffigurau cyfrifiad 2021 a pherthynas ac ymlyniad crefyddol yng Nghymru.

Cynhaliwyd y trafodaethau mewn 5 grŵp, gydag arweinwyr yr eglwysi yn cyfarfod mewn grwpiau o 4-5 a staff Cytûn mewn grŵp trafod ar wahân. Aeth pob grŵp i'r afael â phedwar cwestiwn allweddol, gyda'r cyfle i ystyried cwestiwn atodol terfynol hefyd "Unrhyw faterion eraill i'w hystyried sy'n codi o ddarlith Awst neu o'ch trafodaethau?"

Bydd gweddill yr adroddiad hwn yn ystyried yr atebion a amlygwyd yn nhrafodaethau'r grwpiau i bob un o'r pedwar cwestiwn gyda diwedd yr adroddiad yn nodi rhai o'r themâu allweddol ar gyfer trafodaeth a chamau pellach at y dyfodol gan Ymddiriedolwyr Cytûn ac arweinwyr yr Eglwysi yn genedlaethol yma yng Nghymru. Cynhaliwyd y trafodaethau o dan reolau Chatham House, felly ni phriodolir unrhyw sylwadau i unrhyw unigolyn.

**Cwestiwn 1 -** Beth yw pwrpas Cytûn yng ngoleuni'r dirwedd grefyddol bresennol? Gweler tudalennau 2-6 o'r ddarlith.

**Cwestiwn 2** - Beth mae'n ei olygu i ni yng Nghymru i dorri'n rhydd fel enwadau, ac yn wir fel offerynnau eciwmenaidd, o'r straeon rydyn ni'n eu hadrodd i'n hunain a rhoi ein hunaniaeth i ni allu troi yn lle at y stori sydd gan Dduw i ni? Ydy'r amser wedi dod i ni benderfynu bod rhai o strwythurau'r gorffennol yn ein rhwystro ni yn hytrach na'n cefnogi ni i gydweithio? Yn wir, a oes dyfodol i Cytûn? Gweler tudalennau 8-10 y ddarlith.

Trafododd llawer o'r grwpiau gwestiynau 1 a chwestiwn 2 ar yr un pryd, ac felly bydd adborth ar y ddau gwestiwn yn cael ei ystyried gyda'i gilydd. Roedd e-bost gan unigolyn nad oedd yn bresennol wedi pwysleisio'r angen i fynd i'r afael â'r cwestiwn 'pam'? a chafodd hyn sylw gan sawl un o'r grwpiau, gydag atebion allweddol fel a ganlyn:

- Fel y nododd un grŵp, "Stori Duw yng Nghymru yw Cytûn. Mae gennym gryfder drwy fod gyda'n gilydd". Roedd consensws mai dyma'r ateb allweddol i'r cwestiwn pam, a bod dyfodol i Cytûn. Fodd bynnag, cafwyd cydnabyddiaeth bod rhai o'r offerynnau eciwmenaidd eraill yn ystyried cwestiynau dirfodol ar yr adeg hon, gyda chyfeiriad penodol at Gomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol, sydd wedi cyrraedd 48 mlynedd ers ei sefydlu, a'r nod o undod enwadol strwythurol yn ymddangos mor bell i ffwrdd ag erioed. Ystyrid Cytûn felly fel cyfaddawd neu tŷ hanner ffordd yn y daith hon tuag at

undod strwythurol, gyda ffocws ar hybu cydweithredu rhwng enwadau ac annog gweithredu a chyfranogiad yn hytrach na bod ag undod strwythurol fel ei nod sylfaenol. Mynegodd sawl grŵp y farn, pe na bai Cytûn yn bodoli yna byddai'n rhaid creu (neu ail-greu) gyda'r enghraifft o'r Alban yn cael ei dyfynnu. Yn yr Alban, terfynwyd chwaer offeryn Cytûn, ACTS, gan ei haelod-eglwysi, ond nid oeddent wedi gallu dirwyn ACTS i ben yn gyfreithiol, ac erbyn hyn roeddent wedi creu Fforwm Arweinwyr Eglwysi'r Alban gydag amcanion tebyg i rai ACTS.

- Y nod o hyd yw dilyn y bererindod tuag at undod strwythurol, ond nid yw'r undod hwnnw yn golygu unffurfiaeth. Yn y cyfamser, mae'n ymwneud â gweithredu er mwyn gwneud y Newyddion Da yn amlycach ledled y genedl.

- Teimlwyd bod darlith Siôn ac Astudiaeth Feiblaidd Susan wedi galluogi'r rhai a oedd yn bresennol i weld gwaith eciwmenaidd yn wahanol. A oes rhaid i ni ystyried bod eciwmeniaeth wedi methu gan nad yw undod strwythurol wedi ei wireddu? A wnaethom ni wneud methiant yn anochel 100 mlynedd yn ôl oherwydd y ffocws ar strwythurau bryd hynny? Ar y llaw arall, ydy llwyddiant y mudiad mor amlwg ag y dylai fod, ac a ydyn ni'n cofio o ble rydyn ni wedi dod? Er nad oedd gan ddeiseb heddwch eglwysi 1925 i'r UDA holl aelodau presennol Cytûn yn llofnodwyr, efallai mai hon yw'r enghraifft gyntaf o weithgarwch eciwmenaidd yng Nghymru. Er ei bod yn bwysig peidio â bod yn rhy gaeth i straeon y gorffennol, mae yn bwysig hefyd ein bod ni'n gwerthfawrogi'r trysorau sydd gennym yn ein llyfrau hanes.

- Roedd cydnabyddiaeth bod bywiogrwydd ac egni'r 1980au yng nghyswllt eciwmeniaeth wedi cilio i raddau helaeth a bod angen felly i ni ailedrych ar 'genhadaeth' yr offerynnau eciwmenaidd a dyfodd o'r amseroedd rheini. Fodd bynnag, dylid ystyried y ffaith ein bod yn dal i siarad yn arwydd o lwyddiant. Allan o'r siarad hwnnw a allwn ni ddod o hyd i bethau'n gyffredin er mwyn eu cyflwyno i'r byd?

- Gallwn fod llawer yn rhy gaeth i'n harferion enwadol, gydag un sylw trawiadol yn nodi y gallwn fod llawer yn rhy fewnblyg heb yr offerynnau eciwmenaidd a chael ein llethu gan feddylfryd o roi 'eglwys yr Arglwydd' yn gyntaf yn hytrach na chanolbwyntio ar 'Arglwydd yr Eglwys'. Mae eglwysi prif ffrwd yn brysur yn cadw pethau i fynd a heb weld eciwmeniaeth fel ffordd o wneud hynny, ac amlygu tueddiadau ymerodraethol.

- Mae Cytûn yn darparu fframwaith er mwyn i eglwysi ddod at ei gilydd i gynnal sgyrsiau allweddol: gall nodi'r hyn sy'n gyffredin rhyngom ein caniatáu i wasanaethu ein cymdeithas yn y ffordd orau.

- Mae gan Cytûn rôl genedlaethol o ran dod ag arweinwyr eglwysig at ei gilydd - heb bod unrhyw arweinydd eglwysig unigol yn cymryd arweiniad amlwg, a fyddai'n tanseilio'r egwyddor o weithio ar y cyd. Teimlwyd y dylid cael cyfarfod blynyddol ar gyfer arweinwyr eglwysig (encil 24 awr o bosibl), a mynegwyd rhwystredigaeth nad

oedd hyn wedi digwydd ers 14 mlynedd.

- A all Cytûn fod yn ofod y tu hwnt i'r enwadau er mwyn hwyluso trafodaethau gwahanol? A allai fod yn lle i bobl gyfarfod a siarad fel rhan o drafodaethau a hwylusir? A allai'r mudiad eciwmenaidd fod yn fan 'siarad' er mwyn hwyluso trafodaethau bywiog, agored a gonest yn ymwneud â'r 'sut'? Cydnabuwyd fod tensiwn yng nghyfansoddiad Cytûn rhwng Cytûn yn cael ei arwain a'i gyfarwyddo gan ei haelod-eglwysi, ond eglwysi yn disgwyl cael eu bwydo a/neu eu harwain gan Cytûn.

- Roedd sawl grŵp yn teimlo y dylid ailystyried blaenoriaethau cyfansoddiadol Cytûn gyda'r bwriad o leihau'r nifer y blaenoriaethau yn y cyfansoddiad o 8 i tua 3 neu 4, gan osgoi'r perygl o ormod o flaenoriaethau a chyflawni dim un ohonynt. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo bod yr 8 datganiadau cenhadaeth yn crynhoi hanfod Cytûn.

- Mynegwyd y farn fod gan Cytûn rôl bwysig wrth ddod â phersbectif rhyngwladol a Phrydeinig i'r cenedlaethol lleol gyda hyn wedi ei amlygu trwy bethau megis adroddiadau fideo y Prif Weithredwr o  Gynulliad Cyffredinol CEC yn Tallinn ym mis Mehefin a'r cyfeiriadau at lawer o'r prif areithiau o'r digwyddiad hwnnw yn y ddarlith a draddodwyd ganddo ym mis Awst.

- Roedd teimlad cryf fod gan Cytûn swyddogaeth o ran cynnig llais proffwydol i Gymru a'r gymdeithas Gymreig trwy siarad geiriau Iesu i'r genedl a’r DU ehangach, a sefyll mewn undod â'r rhai sy’n galaru, yn dioddef, yn golledig, yn ofnus – oherwydd ein bod ni fel yr eglwysi yn dioddef hyn hefyd.

- Hefyd wrth gynnig y newyddion da (Newyddion Da!) i'r sefyllfaoedd hyn. Cwestiwn allweddol yw sut gall Cytûn hwyluso rhai pethau na fyddai'n digwydd fel arall?

- Pwysleisiodd y rhan fwyaf o’r grwpiau trafod bwysigrwydd grwpiau lleol Cytûn tra'n cydnabod na allent fodoli heb y corff cenedlaethol ymbarél. Gall grwpiau lleol Cytûn fod yn lleoedd pwysig i sgyrsiau allweddol ddigwydd, ac mae Cytûn yn darparu cydlyniad i alluogi hyn, trwy addoli, cyfarfodydd chwarterol, gwybodaeth a rhannu newyddion - dod at ei gilydd i rannu pethau sy'n digwydd yn y gymuned ac i rannu newyddion amdanynt. Mae llawer hefyd yn rhoi pwyslais ar yr ymarferol – gwneud pethau – e.e. caplaniaeth carchardai, bwydo'r digartref, 'Hanfodion babi' ac yn y blaen. Er hynny, roedd cydnabyddiaeth bod grwpiau lleol Cytûn wedi diflannu'n llwyr yn rhai rhannau o Gymru - nid lleiaf oherwydd effaith gymdeithasol Covid a'r cyfnod clo cysylltiedig. O’r herwydd mae wedi dod yn anos i'r eglwysi siarad gyda'i gilydd yn lleol. Mae diffyg arweinyddiaeth leol – er mwyn dod ag eglwysi ynghyd - hefyd yn amlwg mewn sawl ardal. Mewn rhai mannau, dim ond y Pwyllgor Cymorth Cristnogol lleol sy'n dod ag eglwysi at ei gilydd, unwaith y flwyddyn. Ond roedd cydnabyddiaeth bod llawer o grwpiau Cytûn wedi eu hesgor o bwyllgorau Cymorth Cristnogol lleol ac

i'r gwrthwyneb hefyd. Mae eciwmeniaeth leol yn amrywio ar draws Cymru ac mae gan Cytûn rôl i noddi, cefnogi ac adfywio eciwmeniaeth leol.

**Cwestiwn 3** - A yw'r weledigaeth a amlinellir ar dudalennau 11+12 yn atseinio o gwbl gyda chi? Os felly, sut y gallai hyn fod yn amlwg yn ymarferol?

- Yn ymarferol, a oes gan yr eglwys ran i'w chware o ran annog uniondeb arweinwyr seciwlar ac a all model y mudiad eciwmenaidd ddangos i ni sut i anghytuno'n raslon? Mae'r ddelwedd o'r ail fynydd yn y ddarlith yn ddefnyddiol: gall Cytûn gyrraedd aeddfedrwydd a'n cenhadaeth newid ein persbectif. Mae'n rhaid i ni barhau i ddringo ail fynydd: 'dyw hi ddim yn ddigon i ddweud, 'Dwi wedi dringo hwnna, tydw i ddim am ddringo un arall!' Fodd bynnag, 'dyw dringo yr un mynydd drosodd a throsodd ddim o fudd i neb! Roedd cydnabyddiaeth bod rhywbeth pwerus yn Astudiaeth Feiblaidd Susan gyda'i phwyslais ar ddychwelyd at esiampl Iesu (y medrwn oll uniaethu ag e ac sy'n gyffredin i ni oll). Os ydym yn crwydro oddi wrth hynny rydym yn cael ein rhannu gan ein hamrywiaeth – gydag amrywiaeth yn dod yn ddarniog yn hytrach na ddathlu amrywiaeth. Os ydyn ni'n gwyro oddi wrth ddod ag eraill at Iesu mae'n troi yn ymladd ymhlith ein gilydd.

- Gallem wneud gwahaniaeth enfawr i gymdeithas yng Nghymru pe buasem yn rhoi ein meddwl ar waith a gweithredu gyda'n gilydd. A allwn ni ddewis un neu ddau achos pwysig i ganolbwyntio arnyn nhw gyda'n gilydd? A ydym ni'n lledu ein hunain yn rhy denau dros gormod o bethau? A allai Cytûn ("yr offeryn breintiedig") ddod â ni at ein gilydd i weithio ar bynciau penodol e.e. newid hinsawdd - neu a ellid ymddiried mewn enwad ar ran pob un ohonom i arwain ar bwnc penodol? e.e. EBC ar y weinidogaeth arloesol, Yr Eglwys yng Nghymru ar gynnal Rhwydwaith Swyddogion Eciwmenaidd a Rhyng-ffydd, URC ar gyfer newid hinsawdd ac ati? Dylem ddewis pwnc y flwyddyn a chanolbwyntio arno gyda'r nod o'i wneud yn hunangynhaliol am flwyddyn.

- O gnoi cil ar Astudiaeth Feiblaidd Susan, sut fedrwn ni fynegi llawenydd gyda'n gilydd yn ein cymdeithas heddiw (tra'n ymwybodol bod llawer o sefydliadau o fewn y DU sy'n darparu cymorth ddim yn amlwg Gristnogol e.e. Samariaid, Ymddiriedolaeth Trussell ac ati)? Sut hefyd y gallai Cytûn ymateb i anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol?

- A allai Cytûn ddarparu fforwm er mwyn trafod pynciau dadleuol megis rhywioldeb a hunaniaeth rhywedd, neu bynciau eraill megis y cwricwlwm addysgol? Roedd cydnabyddiaeth bod diffyg adnoddau difrifol, o ran llywio trafodaeth, ar ystod eang o faterion. A ddylai'r eglwysi yng Nghymru fod yn annog yr Asiantaeth Ymholiadau Cristnogol - a sefydlwyd gyntaf gan Eglwysi Ynghyd yn Lloegr - i ehangu eu darpariaeth i gynnwys deunyddiau yn ymwneud â Chymru a deunydd yn Gymraeg? Cristnogaeth, yn hytrach nag enwadau, ddylai fod y ffocws amlwg yng nghyd-destun

efengylu.

- Sut allai Cytûn fod yn galluogi'r eglwysi i gydweithio er mwyn adlewyrchu 'cyseiniant' fel yr amlinellodd Hartmut Rosa, er mwyn hefyd adlewyrchu ein 'dilysrwydd'?

**Cwestiwn 4** - Beth yw'r goblygiadau ariannol ac adnoddau sy'n codi o'ch trafodaeth?

- Gwnaeth un grŵp yn glir ei fod yn teimlo ei bod yn bryd i'r enwadau gyfrannu at wireddu prosiectau penodol yn ogystal â thanysgrifio. Mae angen i ymddiriedolwyr Cytûn gymryd mwy o gyfrifoldeb am ei waith, a dylai staff allu defnyddio'r Ymddiriedolwyr i arwain ar bynciau penodol neu'n lle hynny ddatblygu gweithgorau a allai ganolbwyntio ar agweddau ar genhadaeth ynteu gyflawni dasgau penodol. Gallai enwadau unigol neu Ymddiriedolwr penodol arwain gyda chefnogaeth eu henwad, a'r enwad hwnnw wedyn yn darparu o leiaf rai o'r adnoddau ar gyfer cyflawni'r dasg honno. Fodd bynnag, dylid penderfynu ar y rhain gyda'n gilydd, yn hytrach nag un enwad yn cymryd yr awenau, ac yna gwahodd eraill i ymuno â nhw – dull o weithio a oedd yn cael ei ystyried yn fodd i danseilio eciwmeniaeth, oherwydd methiant gwneud penderfyniadau ar y cyd.

- Roedd consensws ein bod "yn teimlo'n ffodus o gael pobl o allu ein staff cyflogedig yn Cytûn er mwyn symud yr agenda ymlaen" a bod llawer o'r tasgau a wneir gan Cytûn megis ei gwaith polisi - distyllu'r hyn sy'n digwydd yn wleidyddol yng Nghymru trwy lens ddiwinyddol - yn rhywbeth sydd o fudd i bob aelod-eglwys. Roedd cytundeb cyffredinol bod angen i swyddi yng nghorff cenedlaethol Cytûn fod yn rhai ar gyfer gweithwyr cyflogedig llawn amser. Dylai cyllid gyfrannu tuag at gyflogi pobl allweddol, ond nad oedd yr adnoddau presennol yn caniatáu cyflogi unrhyw staff pellach, a bod cyflogi pobl heb adnoddau digonol iddynt gyflawni eu swyddi yn briodol ac yn ystyrlon yn ddibwrpas ac yn peri rhwystredigaeth.

- Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ymhlith y grwpiau trafod ynghylch y gostyngiad a oedd yn dod i'r amlwg o ran adnoddau yr enwadau a oedd yn bresennol, a chydnabyddiaeth hefyd nad oedd eciwmeniaeth yn flaenoriaeth i'r rhelyw o enwadau ac o ganlyniad doedd e ddim yn cael ei flaenoriaethu mewn cyllidebau. Sut ydyn ni'n rhoi trefn ar bethau ac yn gwneud y tasgau eciwmenaidd yn flaenoriaeth i'n haelodau?

- O'i golli byddai Cytûn bron yn amhosib ei ail-ffurfio, a byddai colled enfawr pe bai Cytûn yn diflannu.

**Unrhyw faterion eraill?**

Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â rôl Cytûn o ran datblygu adnoddau addoli ar gyfer eglwysi, a chyfeiriwyd at *Tymhorau'r Gogoniant a*'r llyfryn a gynhyrchwyd ar gyfer y mileniwm. Mae'n amser i ni ganolbwyntio ar weddi ac addoli eto (i'n cynorthwyo yn ein tystiolaeth a'n

gwasanaeth!). Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth nad oedd yr adnoddau i wireddu hyn yn bodoli ar hyn o bryd.

## Cnoi cil  Terfynol a'r Camau Nesaf

**Sylwadau cyffredinol**

Roedd hwn yn gyfarfod calonogol a chadarnhaol gyda theimlad pendant ei bod yn amser i ganolbwyntio unwaith eto ar faterion eciwmenaidd. Roedd teimlad o dymor newydd wrth law. Fodd bynnag, gallai hyn olygu bod angen i ni fel eglwysi wneud penderfyniadau dewr ynghylch a ddylai holl offerynnau eciwmenaidd Cymru barhau, neu a ddylid canolbwyntio ynni ac adnoddau ar un.

Roedd consensws cryf bod cysylltiadau personol yn allweddol, a bod 'eciwmeniaeth y galon' (testun Datganiad Undod Unfed Cynulliad ar ddeg Cyngor Eglwysi'r Byd) yn elfen ganolog o ran adeiladu meysydd cydweithredu a symud tuag at undod gweladwy.

Er gwaethaf natur gadarnhaol y drafodaeth, sut ydyn ni'n amserlennu pethau a gwneud y tasgau eciwmenaidd yn flaenoriaeth i'n haelodau enwadol? A yw'r amser wedi dod i symud ein ffocws i ffwrdd o strwythurau, ac at weithredoedd, gyda'r camau rheini yn mynd i'r afael ag anghenion ein cymdeithas? Beth yw'r anghenion rheini?

Sut allai Cytûn fod yn galluogi'r eglwysi i gydweithio er mwyn adlewyrchu 'cyseiniant' fel y cafodd ei amlinellu gan Hartmut Rosa, gan adlewyrchu ein 'dilysrwydd' a'n gonestrwydd â'n gilydd? A all Cytûn fod yn ofod y tu hwnt i'r enwadau er mwyn hwyluso trafodaethau amrywiol? A allai fod yn lle i bobl gyfarfod a thrafod fel rhan o drafodaethau a hwylusir? A allai'r mudiad eciwmenaidd fod yn fforwm ar gyfer trafodaethau bywiog - "siarad" di-flewyn ar dafod yn ymwneud yn uniongyrchol â 'sut' i wireddu pethau?

Yn ymarferol, a oes gan yr eglwys swyddogaeth i'w chyflawni o ran sicrhau atebolrwydd ac uniondeb arweinwyr seciwlar, ac a all model y mudiad eciwmenaidd ddangos i ni sut i anghytuno'n raslon? A allai Cytûn ddarparu fforwm ar gyfer trafod pynciau dadleuol megis rhywioldeb a hunaniaeth rhywedd, ynteu bynciau eraill megis y cwricwlwm addysg?

Sut fedrai Cytûn ymateb i anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol?

**Pwyntiau gweithredu**

- Roedd cydnabyddiaeth bod rhaid i'r enwadau gynyddu eu cyfraniadau i offeryn eciwmenaidd cenedlaethol Cymru os oedd i barhau, gan nad oedd bron pob enwad wedi gweld unrhyw gynnydd yn eu cyfraniadau i Cytûn mewn dros ddegawd. Gyda chwyddiant yn 2023 dros 10% yn ystod rhai misoedd, roedd hyn wedi golygu lleihad sylweddol yng nghyllideb weithredol Cytûn dros y degawd diwethaf.

- Efallai y bydd ymddiriedolwyr Cytûn yn dymuno ystyried fformat cyfarfodydd arweinwyr eglwysig y dyfodol, gydag awgrym cryf y dylai Cymru ddilyn esiampl

Iwerddon a chynnal encil 24 awr ar gyfer arweinwyr eglwysig ym mis Hydref 2024, gyda siaradwyr yn cael eu gwahodd i gyflwyno papurau annog a myfyrdodau diwinyddol gyda'r nod o annog mwy o gydweithio rhwng enwadau at y dyfodol.

- Roedd teimlad cryf hefyd bod angen i ni symud o sefyllfa lle mae un enwad yn arwain ar bwnc penodol, ac yna yn gwahodd enwadau eraill i ymuno yn y prosiect. Yn hytrach, dylem benderfynu ar flaenoriaethau ar y cyd, gyda gwahanol enwadau wedyn yn arwain ar wahanol agweddau ar y flaenoriaeth honno, neu gael yr awenau ar brosiectau penodol, gyda'r nod o fod o fudd i holl aelodau Cytûn.

- A ddylai'r eglwysi yng Nghymru fod yn annog yr Asiantaeth Ymholiadau Cristnogol - a sefydlwyd gyntaf gan Eglwysi Ynghyd yn Lloegr - i ehangu eu darpariaeth i gynnwys deunyddiau sy'n ymwneud â Chymru a deunydd yn Gymraeg?

- Sut hefyd y gallem annog adfywio grwpiau lleol, ac annog datblygiad arweinwyr lleol yn y mudiad eciwmenaidd?

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei rannu gyda'r holl gyfranogwyr yng nghyfarfod 19 Hydref 2023 a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cytûn. Bydd hefyd yn cael ei drafod yng nghyfarfod Chwefror 2024 ymddiriedolwyr Cytûn ar gyfer myfyrio a gweithredu pellach.

***